**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**HYSBYSIAD O ORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR A ELWID GYNT YN WEITHFEYDD WHITEHEAD, MENDALGIEF ROAD, CASNEWYDD NP20 2NT) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 11 Medi 2018 o dan y cyfeirnod 15/0775, ar y cyd â'r materion a gadwyd yn ôl o dan y rhif cyfeirnod 18/1039 a roddwyd ar 17 Mawrth 2020, 18/1142 a roddwyd ar 9 Ebrill 2020 a 21/0464 a roddwyd ar 22 Rhagfyr 2021, ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw hawliau ymgymerwyr statudol ar gyfer unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir a Elwid Gynt yn Weithfeydd Whitehead, Mendalgief Road, Casnewydd NP20 2NT) 2026 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaethau'r Ddinas, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, De Cymru, NP20 4UR neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2277700.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 17 Mawrth 2026, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**NOTICE OF STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND FORMERLY KNOWN AS WHITEHEAD WORKS, MENDALGIEF ROAD, NEWPORT NP20 2NT) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with outline planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Newport City Council on 11 September 2018 with reference 15/0775, accompanied by the reserved matters with reference number 18/1039 granted on 17 March 2020, 18/1142 granted on 9 April 2020 and 21/0464 granted on 22 December 2021, and described in Schedule 2 to this Notice.

The Order makes provision for the preservation of rights of statutory undertakers for any apparatus under, in, on, over, along or across the highway.

The Stopping Up of Highways (Land Formerly Known as Whitehead Works, Mendalgief Road, Newport NP20 2NT) Order 2026 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Newport City Council, City Services, Civic Centre, Newport, South Wales, NP20 4UR or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2277700.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 17 March 2026 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiadhwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy ofyn amdano oddi wrth:**
Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by requesting it from** TransportOrdersBranch@gov.wales

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar y tir a elwid gynt yn Weithfeydd Whitehead, Mendalgief Road, Casnewydd, NP20 2NT, sy'n 25.80 o fetrau yn y man hiraf ac yn 9.70 metr yn y man lletaf, ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**SCHEDULE 1**
**Lengths of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway on the land formerly known as Whitehead Works, Mendalgief Road, Newport, NP20 2NT, which is 25.80 meters at the longest point and 9.70 metres at the widest point and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**ATODLEN 2**
**Y Datblygiad**

Adeiladu 529 o unedau preswyl, 24 o unedau byw â chymorth, tafarn/bwyty, unedau manwerthu, ysgol gynradd a seilwaith tirwedd a phriffordd cysylltiedig ar y tir a elwid gynt yn Weithfeydd Whitehead ar Mendalgief Road, Casnewydd, NP20 2NT.

**SCHEDULE 2**
**The Development**

Construction of 529 residential units, 24 assisted living units, pub/restaurant, retail units, primary school and associated landscape and highway infrastructure on the land formerly known as Whitehead Works on Mendalgief Road, Newport, NP20 2NT.